CERTIFIED A TRUE COPY- NATIONAL ASSEMBLY FOR WALES- HYWEL AP DAFYDD- 17/05/2007

**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU**

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L

# 2007 Rhif 1483 (Cy.130 )

# ADDYSG, CYMRU

# Gorchymyn YMCA Wales Community College (Sefydliadau Dynodedig mewn Addysg Bellach) (Cymru) 2007

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Dynodir YMCA Wales Community College Limited gan y Gorchymyn hwn at ddibenion adran 28 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992. Mae hyn yn golygu ei fod i gael ei drin fel sefydliad o fewn y sector addysg bellach at ddibenion y Deddfau Addysg.

Mae erthygl 3 yn dirymu'r dynodiad a wnaed yng Ngorchymyn Addysg (Sefydliadau Dynodedig mewn Addysg Bellach) (Cymru) 1993 (Rhif 215), i Gyngor Cenedlaethol Cymdeithasau Cristnogol Dynion Ieuainc Cymru.

OFFERYNNAU STATUDOL

# 2007 Rhif 1483 (Cy.130 )

# ADDYSG, CYMRU

## Gorchymyn YMCA Wales Community College (Sefydliadau Dynodedig mewn Addysg Bellach) (Cymru) 2007

*Wedi'i wneud* *25 Ebrill 2007*

*Yn dod i rym* *1 Awst 2007*

Drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 28 ac 89(1) o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992(**1**) ac a freiniwyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**), mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol.

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn YMCA Wales Community College (Sefydliadau Dynodedig mewn Addysg Bellach) (Cymru) 2007 a daw i rym ar 1 Awst 2007.

**2.**—(1) Drwy hyn dynodir YMCA Wales Community College Limited, sy'n sefydliad addysg o'r math a ddisgrifir yn is-adrannau (1) a (2) o adran 28 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, yn sefydliad at ddibenion yr adran honno.

**3.**—(1) Diwygir Gorchymyn Addysg (Sefydliadau Dynodedig mewn Addysg Bellach) (Cymru) 1993(**3**) fel a ganlyn: -

(2) Yn Atodlen 1, hepgorer "National Council of Young Men's Christian Associations of Wales".

(**1**) 1992 p.13.
(**2**) *Gweler* Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672).
(**3**) O.S. 1993/215.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**1**).

25 Ebrill 2007

*Jane Davidson*

Y Gweinidog dros Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

(**1**) 1998 p.38.